



National  
Guidance  
[oeapng.info](http://oeapng.info)

## Coronafeirws (COVID-19) - Beth yw'r Oblygiadau ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored, Ymweliadau Oddi ar y Safle a Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth?

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar gyfer cynllunio a rheoli dysgu yn yr awyr agored, ymweliadau oddi ar y safle a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ystod y pandemig Coronafeirws (COVID-19). Dylid ei ddarllen o fewn cyd-destun canllawiau llywodraeth presennol, sy'n debyg o newid wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

Er bod y canllawiau yn canolbwyntio ar ysgolion, bwriedir iddynt hefyd fod yn berthnasol i sefydliadau eraill fel cartrefi plant.

### Canllawiau'r Llywodraeth

Mae'n hanfodol dilyn canllawiau presennol y llywodraeth. Felly dylid ei fonitro ar gyfer unrhyw newidiadau.

Mae'r Adran Addysg wedi cyhoeddi canllawiau i leoliadau addysg am COVID-19: [www.gov.uk/government/publications/guidance-to-educational-settings-about-covid-19](http://www.gov.uk/government/publications/guidance-to-educational-settings-about-covid-19).

Mae wedi cyhoeddi cyngor teithio penodol i leoliadau addysg hefyd: [www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-travel-advice-for-educational-settings/coronavirus-travel-guidance-for-educational-settings](http://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-travel-advice-for-educational-settings/coronavirus-travel-guidance-for-educational-settings).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau i leoliadau addysg: <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-covid-19-ar-gyfer-lleoliadau-addysgol>.

Mae canllawiau teithio Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau addysgol yn: <https://llyw.cymru/coronafeirws-canllawiau-teithio-i-sefydliadau-addysg-myfyrwyr>.

### Beth sy'n Bosibl Nawr?

Adeg cyhoeddi'r ddogfen hon:

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ynghau heblaw am blant gweithwyr allweddol a rhai plant agored i niwed, sydd o bosibl angen mynd i ysgol wahanol i'r un maent yn arfer ei mynychu;
- Mae'r llywodraeth yn cynghori yn erbyn ymweliadau dramor a domestig.

Mae dewisiadau ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, ymweliadau oddi ar y safle a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth felly yn gyfyngedig iawn. Fodd bynnag, mae budd gweithgareddau o'r fath i addysg ac iechyd fel y dylai sefydliadau sy'n gweithio ystyried a oes yna gyfleoedd iddynt o fewn y canllawiau presennol gan y llywodraeth a thra'n rheoli unrhyw risgiau i gyfranogwyr, staff a'r cyhoedd o ganlyniad i COVID-19.

Er enghraifft, mewn amgylchiadau arferol mae llawer o ysgolion yn defnyddio ardaloedd awyr agored ger yr ysgol ar gyfer gweithgareddau addysgol fel mater o drefn, weithiau wedi eu dylunio fel 'Ardal Ddysgu Leol'. Efallai y bydd yn bosibl parhau i ddefnyddio rhai o'r lleoliadau a gweithgareddau hyn a datblygu gweithgareddau newydd o fewn cyfyngiadau presennol.

Efallai y bydd hefyd yn bosibl trafod defnydd unigryw dros dro o ardal awyr agored ger sefydliad, gyda'r perchennog.

Mae yna lawer o syniadau ac adnoddau ar gael ar-lein, er enghraifft

- Cyngor Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth  
[www.lotc.org.uk/resources/education-resources](http://www.lotc.org.uk/resources/education-resources)
- Dysgu Drwy Dirluniau  
[www.lti.org.uk/free-resources](http://www.lti.org.uk/free-resources)
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol  
[www.nationaltrust.org.uk/features/50-things-to-do-before-youre-11--activity-list](http://www.nationaltrust.org.uk/features/50-things-to-do-before-youre-11--activity-list)

## Cynllunio a Rheoli Gweithgareddau Lleol

Mae'r canllawiau presennol ar gyfer cynllunio a rheoli gweithgareddau yn benodol i'r sefyllfa bresennol ynglŷn â COVID-19. Dylech hefyd fod yn gyfarwydd â dogfennau Canllawiau Cenedlaethol eraill sy'n berthnasol i'ch rôl, gan fod egwyddorion arferol arferion da yn parhau'n berthnasol.

Mae'n arbennig o bwysig dilyn canllawiau'r llywodraeth am bellhau cymdeithasol a glendid, boed o dan do neu yn yr awyr agored, ar y safle neu oddi ar y safle, gan fod gan lawer o blant sy'n parhau i fynd i'r ysgol rieni sy'n weithwyr allweddol.

- Mae yna risg fod plant yn dal y feirws tra yn yr ysgol ac yn ei gario adref;
- Mae rhai o'r rhieni hyn mewn swyddi risg uchel (e.e. staff GIG neu ofal), felly mae eu plant yn fwy tebyg o ddal y firws gartref na phlant eraill, yna mae yna risg i'r gymuned ehangach.

Os yw'r gweithgaredd a drefnwyd mewn ardal agored i'r cyhoedd, dylech ystyried yn ofalus sut y byddwch yn sicrhau bod eich grŵp wedi'i ynysu rhag y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ynysu rhag plant sy'n arfer mynychu'r sefydliad, neu sefydliadau lleol eraill, ond nid ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd ac felly gallant gael eu denu at eich grŵp ac amharu.

Mae'r ystyriaeth am ynysu rhag y cyhoedd, gan gynnwys plant nad ydynt yn yr ysgol, hefyd yn berthnasol, os yw'r gweithgaredd oddi ar y safle ac felly yn cynnwys cerdded neu gludiant (fel bws mini y sefydliad).

Felly dylid dewis lleoliadau i leihau unrhyw ryngweithio posibl gyda'r cyhoedd, gan gynnwys plant nad ydynt yn yr ysgol a chadw pellter teithio i'r lleiafswm.

Dylid rhoi'r un sylw i hylendid yn yr awyr agored fel o dan do. Er enghraifft:

- Golchi dwylo yn rheolaidd gan gynnwys:
  - pan fyddwch yn mynd allan;
  - cyn ac ar ôl cyffwrdd gwrthrychau a rennir fel offer gweithgaredd;
  - cyn bwyta;
  - ar ôl defnyddio'r toiled;
  - wrth fynd i mewn neu allan o gludiant fel bws mini;
  - ar ôl dychwelyd i'r tŷ;
- osgoi cyffwrdd gwrthrychau a rennir gan y cyhoedd – er enghraifft, dylai aelod o staff ddal giât yn agored i osgoi pawb rhag ei chyffwrdd;
- Osgoi gweithgareddau sy'n cynnwys cyffwrdd pobl eraill (e.e. dal dwylo);
- Glanhau offer cyn ei ddefnyddio;
- Glanhau cerbydau yn drwyadl cyn ac ar ôl eu defnyddio.

Mae'n bwysig hysbysu rhieni am eich cynlluniau a'r rhagofalon rydych yn eu cymryd, dan do ac yn yr awyr agored, gan y byddant yn naturiol yn bryderus. Bydd rhai ysgolion yn gweithio gyda staff a phlant sydd fel arfer yn mynychu ysgolion eraill, ble mae polisïau, gweithdrefnau a disgwyladau yn wahanol ac felly efallai y bydd angen sefydlu dealltwriaeth gyffredin gyda staff, rhieni a phlant.

Ble mae staff yn gweithio gyda phlant nad ydynt yn gyfarwydd â nhw, neu mewn sefydliad anghyfarwydd ac ardal leol, dylent gymryd hyn i ystyriaeth wrth gynllunio gweithgareddau.

## Ymweliadau yn y Dyfodol

Gall cyfyngiadau ar ymweliadau barhau am amser maith, felly byddai'n annoeth gwneud unrhyw gynlluniau pendant nes y bydd yn hysbys y byddant wedi eu hymlacio.

Pan ddaw'r amser i wneud cynlluniau o'r fath, dylech gymryd canllawiau presennol y llywodraeth i ystyriaeth fel rhan o'ch proses o asesiad risg ac yna ei wirio yn rheolaidd yn y dyddiau a'r wythnosau sy'n arwain at yr ymweliad ac yn ystod ymweliad preswyl, a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'ch cynlluniau.

Bydd rhieni a chyfranogwyr yn bryderus yn naturiol, felly dylech drafod eu pryderon gyda nhw a'u hysbysu am y sefyllfa a sut yr ydych yn bwriadu lliniaru unrhyw risgiau.

Os ydych yn bwriadu ymweld â lleoliad fel amgueddfa neu oriel, neu fynychu digwyddiad cyhoeddus fel cyngerdd neu chwaraeon, neu aros mewn llety fel gwesty neu hostel neu os ydych yn defnyddio gweithredwr teithiau neu ddarparwr gweithgaredd, trafodwch effeithiau posibl COVID-19 gyda nhw pan fyddwch yn archebu a chadwch mewn cysylltiad gyda nhw yn y cyfnod hyd at yr ymweliad.

Os byddwch yn gwneud archeb neu ymrwymadau ariannol, dylech egluro sut y bydd y telerau ac amodau yn berthnasol os bydd yn rhaid i chi ganslo, neu'n cael eich atal rhag symud ymlaen oherwydd COVID-19. Dylech hefyd sicrhau bod rhieni yn glir am unrhyw ganlyniadau ariannol os bydd yn rhaid canslo. Gweler dogfen Contractau a Hepgoriadau 3.2i "Contracts and Waivers".

Os yw'r ymweliad yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau ariannol sylweddol, fel teithio neu lety, dylech drafod yr effeithiau posibl o COVID-19 gyda'r darparwr yswiriant teithio. Er enghraifft gyda'r sicrwydd yswiriant, cost canslo, cwotgiad neu oedi o ganlyniad i fesurau rheoli firws (fel aelodau grŵp yn cael eu hynysu gartref neu mewn gwesty ac wedi eu hatal rhag teithio)? Gweler dogfen 4.4c "Yswiriant".

Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain wedi cyhoeddi cyngor ar oblygiadau COVID-19 ar yswiriant teithio, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar deithio dramor, yn: [www.abi.org.uk/products-and-issues/topics-and-issues/coronavirus-qa](http://www.abi.org.uk/products-and-issues/topics-and-issues/coronavirus-qa)

Oherwydd COVID-19, efallai y bydd yna fwy o risg na'r arfer o arweinwyr yn methu mynd ar ymweliad safle, felly efallai y byddwch angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth gynllunio staffio ymweliadau.

Os byddwch yn cynllunio ymweliad sy'n cynnwys grŵp arall (grŵp o dramor efallai), fel taith gyfnewid, neu eich bod yn bwriadu cynnal neu weithio gyda grŵp arall (grŵp o dramor yn ymweld â'r DU efallai) dylech gadw mewn cysylltiad gyda nhw a bod yn ymwybodol efallai y byddant angen newid neu ganslo'r trefniant.

## Ymweliadau o Dramor yn y Dyfodol

Gweler hefyd dogfen Ymweliadau tramor 7r "Overseas Visits".

Mae'n debyg na fydd teithiau dramor yn bosibl am beth amser. Dylech fonitro cyngor teithio dramor y llywodraeth ar gyfer unrhyw wlad yr ydych yn bwriadu teithio iddi neu drwyddi: [www.gov.uk/foreign-travel-advice](http://www.gov.uk/foreign-travel-advice).

Cadwch gysylltiad agos gyda'ch darparwr teithio am y sefyllfa yn y wlad yr ydych yn bwriadu ymweld â hi ac ystyriwch y dewisiadau amgen a'r opsiynau pe na bai'r ymweliad hwnnw'n gallu mynd yn ei flaen mwyach.

Mae'r cyngor a roddwyd uchod am yswiriant yn arbennig o bwysig ar gyfer ymweliadau dramor.

Mae Cymdeithas Asiantaethau Teithio Prydeinig (ABTA) wedi cyhoeddi canllawiau am deithio dramor yn: [www.abta.com/news/coronavirus-outbreak](http://www.abta.com/news/coronavirus-outbreak)

